Y prynhawn canlynol aeth rhai o'r plant hŷn i Neuadd yr Eglwys i roi awr o adloniant i'r ymddeolwyr. Croesawyd ni'n gynnes gan Mr. Bernard Jones. Mynegodd R.T. Evans ein llawenydd o gael bod yn eu plith. Aeth yr amser yn llawer rhy gyflym ond 'roeddem i gyd wedi cael amser difyr a hyfryd yno ac yn goron ar y cwbl te ardderchog a barat-owyd gan y dynion. Ar ran yr ymddeolwyr diolchodd Miss S. Jenkins i'r plant a'r staff am brynhawn hyfryd iawn.

Aeth nifer ohonom Nos Lun i'r cyfarfod arbennig a drefnwyd yn y Neuadd Fawr i ddathlu cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg. Hyfryd oedd gweld cymaint o'r mamau yn cymryd rhan yn y dathlu a da oedd gweld un o'r cyn-ddisgyblion hefyd sef Huw Evans ar y llwyfan.

Rhaid yw estyn croeso'n ôl atom i Shane Evans, Fredora. Dychwelodd wedi cyfnod yn Leominster.

Cyfarfu Cymdeithas Rhieni Athrawon yr ysgol a phenderfynwyd ein bod yn cynnal Ffair Haf yr Ysgol eleni ar y degfed o Fehefin.